

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth

Gorffennaf 2020

Argymhelliad cyffredinol

Nodwn fod gan Lywodraeth Cymru faterion sy'n peri pryder nad ydynt wedi'u datrys ynglŷn â rhai darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth y DU 2019-21. Felly nid ydym mewn sefyllfa i argymhell i'r Senedd ei bod yn rhoi cydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil.

1. Cyflwyniad

1. Dyma ail adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') ar Fil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU 2019-21 ('y Bil'). Cafodd ein hadroddiad cyntaf ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil ei gyhoeddi ym mis Mai 2020. Yn yr adroddiad hwnnw, rydym yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil, ar yr amod ei bod yn fodlon ar ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o'n hargymhellion.
2. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein casgliadau ar ddiwygiadau a wnaed i'r Bil yn Nhŷ'r Cyffredin y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar eu cyfer (gweler Pennod 2). Mae rhifau'r cymalau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd ar ôl y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.
3. Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â'n hadroddiad cyntaf ar y Bil ac ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion yn yr adroddiad hwnnw.



Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

- 4.** Cyflwynodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ('y Gweinidog') y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil ('y Memorandwm Atodol') ar 11 Mehefin 2020.
- 5.** Ar 15 Mehefin 2020, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Atodol at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 9 Gorffennaf 2020.

Ein dull gweithredu

- 6.** O ystyried yr amser cyfyngedig a oedd ar gael i ni ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Atodol, nid oeddem mewn sefyllfa i glywed tystiolaeth gan y Gweinidog.
- 7.** Trafodwyd y Memorandwm Atodol yn ein cyfarfod ar 25 Mehefin 2020.

2. Darpariaethau atodol y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

8. Mae'r Memorandwm Atodol yn nodi'r newidiadau i'r Bil a wnaed yn Nhŷ'r Cyffredin y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar eu cyfer. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y newidiadau ym mharagraffau 12 i 28 o'r Memorandwm Atodol.

Newid enw'r Cynulliad

9. Mae'r Bil wedi'i ddiwygio i ddisodli cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda Senedd Cymru i adlewyrchu'r ffaith bod yr enw wedi newid yn ddiweddar.

Cymal 32 (adnabod ac olrhain anifeiliaid)

10. Fel y'i drafftwyd yn wreiddiol, roedd Cymalau 32(2), (3) a (4), sy'n gwneud newidiadau i ddarpariaethau deddfwriaethol presennol, yn gymwys mewn perthynas â Lloegr yn unig. Mae'r Cymal wedi'i ddiwygio fel bod y newidiadau bellach yn gymwys mewn perthynas â Chymru hefyd.

Atodlen 5, Rhan 1: Cymorth ariannol ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd

Paragraff 2 (pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol)

11. Mae paragraff 2 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth benodol sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol.

12. Fel y'i drafftwyd yn wreiddiol, roedd y pwerau hyn ar gael i "symleiddio neu wella" y cynllun. Mae paragraff 2 bellach wedi'i ddiwygio i nodi pum diben er mwyn gallu addasu'r ddeddfwriaeth. Y dibenion yw:

(a) symleiddio gwaith gweinyddu'r cynllun neu fel arall er mwyn gwneud y gweithrediad yn fwy effeithlon neu effeithiol;

(b) cael gwared ar ddarpariaethau sydd wedi cael eu defnyddio neu nad ydynt o unrhyw ddefnydd ymarferol;

(c) dileu neu leihau beichiau, neu'r beichiau cyffredinol, ar bobl sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol o dan y cynllun, neu sydd â hawl i'w cael, neu fel arall wella'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu mewn perthynas â nhw;

(d) sicrhau bod unrhyw sancsiwn neu gosb a osodir o dan y cynllun yn briodol ac yn gymesur;

(e) cyfyngu cymhwysiad y cynllun i dir yng Nghymru yn unig.

13. Mae paragraff 2 hefyd wedi'i ddiwygio:

- i egluro y caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pwerau i derfynu taliadau gwyrdd; ac
- i ddiffinio "baich" (fel y'i defnyddir ym mharagraff 2).

Paragraff 4 (Cymorth ariannol arall: addasiadau mewn perthynas â Chymru o ddarpariaeth gyffredinol yn gysylltiedig â thaliadau i ffermwyr a buddiolwyr eraill)

14. Mae paragraff 4 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru addasu, i'r graddau y mae'n gweithredu mewn perthynas â Chymru, ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn ymwneud ag "ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin", ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno. Mae hefyd yn darparu rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth honno.

15. Fel y'i drafftwyd yn wreiddiol, roedd y pwerau ar gael at y diben o sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth honno yn peidio â chael effaith mewn perthynas â Chymru, neu symleiddio neu wella gweithrediad y ddeddfwriaeth mewn perthynas â Chymru.

16. Mae paragraff 4 bellach wedi'i ddiwygio i nodi pedwar diben er mwyn gallu addasu'r ddeddfwriaeth. Y dibenion yw:

(a) sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth yn peidio â chael effaith;

(b) symleiddio gweithrediad unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth o'r fath, neu wneud ei gweithrediad yn fwy effeithlon neu effeithiol;

(c) dileu neu leihau beichiau, neu'r beichiau cyffredinol, a osodir gan ddeddfwriaeth o'r fath ar bobl sy'n gwneud cais am daliadau a lywodraethir gan y ddeddfwriaeth, neu sy'n derbyn y taliadau hynny, neu fel arall wella'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth yn gweithredu mewn perthynas â phobl o'r fath;

(d) sicrhau bod unrhyw sancsiwn neu gosb a osodir o dan ddeddfwriaeth o'r fath yn briodol ac yn gymesur;

17. Mae paragraff 4 hefyd wedi'i ddiwygio:

- i gynnwys “rheoliadau etifeddiaeth” yn y rhestr nad yw’n gynhwysfawr o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, a i ddiffinio’r term; ac
- i ddiffinio “baich” (fel y’i defnyddir ym mharagraff 4).

Paragraff 5 (Cymorth i ddatblygu gwledig: addasiadau i ddeddfwriaeth mewn perthynas â Chymru)

18. Mae paragraff 5 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru addasu “deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy’n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig” ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig.

19. Fel y’i drafftiiwyd yn wreiddiol, gellid defnyddio’r pwerau hyn i sicrhau bod deddfwriaeth benodol yn peidio â chael effaith mewn perthynas â Chymru, neu i symleiddio neu wella gweithrediad y ddeddfwriaeth honno (hyd nes y bydd y ddeddfwriaeth honno’n peidio â chael effaith).

20. Mae paragraff 5 bellach wedi’i ddiwygio:

- i ehangu’r pwerau gwneud rheoliadau trwy ddileu’r cyfyngiadau uchod, gan ganiatáu i’r ddeddfwriaeth gael ei haddasu i’r graddau y mae’n cael effaith mewn perthynas â Chymru;
- i wneud y pwerau rheoleiddio yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn hytrach na’r weithdrefn negyddol.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y’i diwygiwyd

21. Yn ôl y Memorandwm Atodol, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y diwygiadau i Gymal 32 (adnabod ac olrhain anifeiliaid) ac Atodlen 5 (Darpariaeth sy’n ymwneud â Chymru).

22. Fodd bynnag, mae’n egluro bod materion sy’n peri pryder nad ydynt wedi eu datrys ynglŷn â phwerau’r Ysgrifennydd Gwladol i wneud is-ddeddfwriaeth o dan Gymal 32 a Chymal 36 a 37 (rheoleiddio cynhyrchion organig) ac absenoldeb gofynion priodol i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru mewn rhai amgylchiadau. Mae’r Memorandwm Atodol yn nodi bod gwaith yn parhau i fynd rhagddo i ddatrys y materion hyn.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar gydsyniad

23. Daw’r Memorandwm Atodol i’r casgliad, er bod Llywodraeth Cymru yn gefnogol ar y cyfan i’r Bil fel y’i drafftiiwyd...“nad oes modd argymell yn bendant y

dylai'r Senedd roi cydsyniad i'r Bil nes y bydd yn nes at ddiwedd ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi".

24. Mae'n egluro, os bydd angen, y bydd Memoranda Atodol pellach yn cael eu gosod ac "y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud argymhelliad ynglŷn â chydsyniad y Senedd ar yr adeg briodol."

Ein barn ni

Nid oes gennym wrthwynebiad i'r diwygiadau a wnaed i'r Bil sy'n adlewyrchu newid enw'r Cynulliad i'r Senedd yn ddiweddar.

Er bod y Memorandwm Atodol yn nodi pwrpas ac effaith y diwygiadau sylweddol sy'n weddill, nid yw'n egluro rhesymeg Llywodraeth Cymru dros y newidiadau. Yn benodol, nid yw'n glir a yw'r diwygiadau hyn o ganlyniad i newidiadau yn safbwynt Llywodraeth Cymru, neu ryw reswm arall. Hoffem i'r Gweinidog egluro hyn.

Nodwn y diwygiadau i baragraff 2 a 4 o Atodlen 5 fel ffordd o egluro'r dibenion y gellir defnyddio'r pwerau ar eu cyfer. Fodd bynnag, heb esboniad clir ynghylch bwriadau polisi Llywodraeth Cymru, mae'n anodd gwybod a yw cwmpas y pwerau yn cael ei dynnu'n briodol. Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad a wnaed gennym yn ein hadroddiad cyntaf, sef y dylai'r Gweinidog egluro sut y mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau a ddarperir i Weinidogion Cymru yn y Bil.

Mae'r pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru ym mharagraff 5 o Atodlen 5 bellach yn llawer mwy eang nag yn y Bil fel y'i drafftwyd yn wreiddiol. Er y bydd rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau hyn bellach yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol, credwn fod angen mesurau diogelwch pellach i wella'r gwaith craffu. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf, rydym yn disgwyl i'r Gweinidog ddarparu rheoliadau drafft i'r Pwyllgor gan ddefnyddio pwerau a roddir gan Atodlen 5 y Bil.

Ymhellach i'r uchod, rydym yn gofyn am ymrwymiad gan y Gweinidog fod unrhyw gynigion i addasu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n llywodraethu taliadau i ffermwyr, neu'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig, yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â'r sector amaethyddol a'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau cefn gwlad Cymru, fel sy'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad yw eto mewn sefyllfa i roi argymhelliad diamwys bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Bil. Mae hyn oherwydd materion sy'n peri pryder nad ydynt wedi'u datrys mewn perthynas â Chymal 32, 36 a 37.

Hoffem i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth ddatrys y materion hyn ar y cyfle cyntaf sydd ar gael. Rydym yn disgwyl y bydd digon o amser ar gael yn nhymor yr hydref i graffu ar unrhyw Femoranda Atodol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ddod i farn gwbl wybodus ar gydsyniad.

Recommendation 1. Rhaid i'r Gweinidog egluro rhesymeg Llywodraeth Cymru dros y newidiadau i Gymal 32 (adnabod ac olrhain anifeiliaid) ac i Atodlen 5, Rhan 1 (Cymorth ariannol ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd). Yn benodol, dylai egluro a yw'r diwygiadau o ganlyniad i newidiadau yn safbwynt Llywodraeth Cymru, neu ryw reswm arall.

Recommendation 2. Rhaid i'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau bod unrhyw gynigion i addasu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n llywodraethu taliadau i ffermwyr, neu'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig, yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â'r sector amaethyddol a'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau cefn gwlad Cymru, fel sy'n briodol.

Recommendation 3. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth ddatrys y materion sy'n peri pryder nad ydynt wedi'u datrys mewn perthynas â Chymal 32, 36 a 37 o'r Bil.